JOINTLY OWNED BY

LOCAL PARTNERSHIPS | HM Treasury | Local Government Association | Llywodraeth Cymru Welsh Government

# SWYDD-DDISGRIFIAD

| | |
|---|---|
| **Teitl y Swydd:** | **Cyfarwyddwr Cynorthwyol – Hinsawdd (Ynni Cymru)** |
| **Yn atebol i:** | Cyfarwyddwr |
| **Lleoliad:** | Gogledd Cymru / Hybrid ynghyd â gofyniad i deithio'n aml (wythnosol) i swyddfeydd M-SPARC, Gogledd Cymru |
| **Math o gyflogaeth:** | Parhaol |
| **Cyflog:** | Lefel 1: yn dechrau ar £45,000 y flwyddyn<br>Lefel 2: yn dechrau ar £52,000 y flwyddyn<br>Lefel 3: yn dechrau ar £59,000 y flwyddyn |
| **Oriau Wythnosol** | 35 (llawn-amser) |

Mae Ynni Cymru yn rhaglen gan Lywodraeth Cymru a fydd yn helpu i lunio dyfodol y system ynni yng Nghymru. Yn eich gwaith o ddydd i ddydd, gan ganolbwyntio'n bennaf ar ehangu'r defnydd o ynni adnewyddadwy a datblygiad Systemau Ynni Lleol Clyfar, byddwch yn rhan o dîm bach, cyfeillgar a dynamig sy'n cefnogi'r broses o ddatblygu a chyflawni prosiectau ledled Cymru.

Er bod y rôl wedi'i lleoli gartref yn bennaf, **rhaid i'r ymgeiswyr fyw o fewn pellter cymudo i swyddfeydd M-SParc yng Ngogledd Cymru** gan y bydd yn ofynnol gweithio (wythnosol) wyneb yn wyneb â chleientiaid lleoliad yn Gogledd Cymru yn rheolaidd. Disgwylir i chi hefyd deithio i safleoedd ledled draws Cymru, Llundain neu ganolfannau rhanbarthol.

Gellir cyflwyno ceisiadau yn Gymraeg.

## DIBEN Y SWYDD

Mae Cyfarwyddwyr Cynorthwyol yn gyfrifol am gefnogi'r gwaith o gyflawni gweithgarwch yn llwyddiannus mewn timau penodol ar gyfer Partneriaethau Lleol, gan sicrhau bod yr amcanion wedi'u diffinio'n glir ac yn cael eu cyflawni'n unol â'r cyfyngiadau amser, cost ac ansawdd y cytunwyd arnynt. Yn debygol o feddu ar wybodaeth sector-benodol ar lefel fanwl a gallu cymhwyso'r wybodaeth honno i amrywiaeth o senarios.

Gall Cyfarwyddwyr Cynorthwyol weithio ar eu pen eu hunain ond yn amlach byddant yn rhan o dîm o arbenigwyr gwahanol sy'n ymgymryd ag aseiniad sy'n ymestyn dros wythnosau neu fisoedd, neu weithiau flynyddoedd, ar gyfer cleient a fydd fel arfer yn adran o lywodraeth ganolog neu'n un neu fwy o gynghorau.

Mae Cyfarwyddwyr Cynorthwyol yn cael eu neilltuo i dîm mewn Uned Fusnes. Mae pob tîm yn cael ei arwain gan Uwch-gyfarwyddwr. Er bod pob aseiniad yn wahanol, mae Cyfarwyddwyr Cynorthwyol fel arfer yn defnyddio eu harbenigedd proffesiynol a'u sgiliau rheoli prosiectau ar gyfer prosiectau a phroblemau cymhleth ac yn sicrhau bod safonau ansawdd Partneriaethau Lleol yn cael eu bodloni wrth gwblhau'r aseiniad ar amser ac yn unol â'r gyllideb.

Mae angen i Gyfarwyddwyr Cynorthwyol ddeall y broses gwneud penderfyniadau yn y sector cyhoeddus, gan gynnwys rôl gwleidyddion etholedig, yn ychwanegol at eu harbenigedd proffesiynol. Mae bron pob aseiniad yn cynnwys paratoi adroddiadau ac ynddynt wybodaeth ysgrifenedig a dadansoddol gymhleth ar gyfer y cleient, felly mae sgiliau cyfathrebu rhagorol yn hanfodol. Mae trosglwyddo gwybodaeth i'r cleient yn rhan allweddol o'r rôl.

Bydd angen teithio’n helaeth ledled Cymru. Mae trwydded yrru gyfredol a dilys y Deyrnas Unedig yn ddymunol ar gyfer y rôl hon.

## PRIF DDYLETSWYDDAU

Mae cyfrifoldebau cyffredinol Cyfarwyddwr Cynorthwyol yn cynnwys:

- Cefnogi'r broses o gyflawni ffrydiau gwaith a phrosiectau gan ddefnyddio arbenigedd proffesiynol, a chynnal perthnasoedd cryf ac effeithiol â chleientiaid, naill ai fel rhan o dîm, neu'n annibynnol
- Rheoli gweithgareddau yn y prosiect o ddydd i ddydd gan weithio ar lefelau gwahanol gyda thîm y prosiect, ac o fewn strwythur, trefniadaeth a methodolegau cyflawni y prosiect ar gyfer pob cam. Rheoli proses bontio effeithiol rhwng cyfnodau prosiectau
- Gweithio gydag arweinwyr prosiectau ac arbenigwyr pwnc wrth baratoi allbynnau a chanlyniadau yn unol â'r briff ar gyfer yr aseiniad, gan ddefnyddio offer i gyfleu gwybodaeth ysgrifenedig a dadansoddol gymhleth i'r cleient. Gall hyn gynnwys llunio achosion busnes ac adroddiadau eraill
- Paratoi allbynnau a chanlyniadau yn unol â briffiau prosiectau a sicrhau bod allbynnau'n bodloni safonau ansawdd Partneriaethau Lleol a disgwyliadau cwsmeriaid
- Gweithio gyda Chyfarwyddwr/Uwch-gyfarwyddwyr yr Uned Fusnes yn ôl yr angen i sicrhau bod pob prosiect yn cael ei gyflawni'n effeithlon, yn effeithiol, ar amser ac yn unol â'r gyllideb
- Sefydlu enw da gyda chleientiaid a chyd-weithwyr fel ffynhonnell arbenigedd i dîm mewn Uned Fusnes. Gall Cyfarwyddwyr Cynorthwyol hefyd fod yn arbenigwyr mewn maes perthnasol ac felly ddarparu sgiliau a gwybodaeth allweddol i'r Uned Fusnes gyfan
- Rheoli perthnasoedd â chleientiaid a chyd-weithwyr, gan sefydlu a chynnal sianeli cyfathrebu cryf a meithrin ymddiriedaeth, cydnerthedd ac enw da yn nhîm y prosiect
- Cefnogi nodau datblygu busnes ar gyfer tîm yr Uned Fusnes, trwy geisio adborth gan gleientiaid ac adnabod cyfleoedd
- Cyfrannu at lwyddiant corfforaethol ehangach Partneriaethau Lleol

## MANYLEB Y PERSON

- Addysg i safon gradd neu brofiad cyfatebol, ynghyd â chymwysterau proffesiynol sy'n briodol i'r rôl
- Sgiliau rhagorol o ran ymgysylltu â rhanddeiliaid a'u rheoli, gan gynnwys y gallu i ddarparu atebion sy'n diwallu anghenion ar y cyd, a chyfathrebu mewn amrywiaeth o ffyrdd gwahanol
- Yn gallu gweithio fel rhan o dimau effeithiol yn unol â strwythurau sefydliadol i gyflawni prosiectau a chomisiynau
- Yn gallu asesu goblygiadau materion cydberthynol a gwneud dyfarniadau synhwyrol sy'n cydbwyso â blaenoriaethau rhanddeiliaid
- Profiad o weithio ar brosiectau mewn amgylchedd sector cyhoeddus, ynghyd â hanes o gyflawni effeithiol a dealltwriaeth gadarn o sector cyhoeddus y DU a/neu'r trydydd sector sy'n canolbwyntio ar y gymuned
- Gwerthoedd personol ac uniondeb sy'n gydnaws â gweithredu gyda chleientiaid yn y sector cyhoeddus, gan gynnwys ymrwymiad i werthfawrogi amrywiaeth a herio gwahaniaethu

- Yn drefnus iawn; yn gweithio'n dda ar eich pen eich hun ac mewn tîm
- Yn blaenoriaethu'n dda ac yn gallu rheoli amgylchedd dan bwysau wrth weithio i derfynau amser tynn

**Yn benodol ar gyfer rhaglen Ynni Cymru Llywodraeth Cymru, mae'r rôl hefyd yn cynnwys y gweithgareddau a'r arbenigeddau allweddol canlynol:**

- Ymgymryd â rôl y Cyfarwyddwr Cynorthwyol yn Ynni Cymru, i reoli prosiectau a chefnogi'r broses o gyflawni prosiectau Systemau Ynni Lleol Clyfar (SLES) sydd ar y gweill gan weithio gyda chleientiaid a chyd-weithwyr i oresgyn rhwystrau.
- Profiad ac arbenigedd o ran rheoli a chyflawni prosiectau.
- Mae profiad o raglenni a phrosiectau ynni adnewyddadwy ac effeithlonrwydd ynni yn ddymunol, gan gynnwys profiad penodol o gyflawni agweddau allweddol ar brosiectau SLES.
- Profiad o weithio ar draws ystod eang o randdeiliaid (llywodraeth, y byd academaidd, cymunedau, y sector cyhoeddus, cyfleustodau) i feithrin partneriaethau a chydweithio.
- Profiad o baratoi achosion busnes (yn enwedig gan ddefnyddio'r 'model 5 achos'). Byddai profiad penodol o baratoi Achosion Busnes sy'n cydymffurfio â Thrysorlys EF a Llywodraeth Cymru yn fanteisiol.
- Byddai gwybodaeth am gymhwyso SLES mewn ardaloedd lleol yn fanteisiol, ond nid yn hanfodol
- Mae sgiliau Cymraeg yn ddymunol.
- Bydd angen teithio’n helaeth ledled Cymru.
- Trwydded Yrru y Deyrnas Unedig